OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1733 (Cy.161)

BYWYD GWYLLT, CYMRU

Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*3 Gorffennaf 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*6 Gorffennaf 2009*
Yn dod i rym - -	*27 Gorffennaf 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 7(1) a (2) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2009, maent yn dod i rym ar 27 Gorffennaf 2009 ac yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2003

2. Mae Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2003(**2**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

Diwygio rheoliad 2

3. Yn rheoliad 2(1), ar ôl y diffiniad o "modrwy" ("*ring*") mewnosoder y diffiniadau canlynol—

"ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 865/2006 sy'n gosod rheolau manwl ynghylch gweithredu Rheoliad y Cyngor(**3**);

(**1**) 1981 p.69. Diwygiwyd adran 7(1), o ran Cymru a Lloegr, gan adran 102 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) a Rhan 4 o Atodlen 16 iddi. Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae pwerau adran 7(1) a (2) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2003/3235.

(**3**) OJ L166, 19.6.2006, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 100/2008 (OJ L31, 5.2.2008, t.3).

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 338/97 ynghylch gwarchod rhywogaethau ffawna a fflora gwyllt drwy reoleiddio'r fasnach ynddynt(**4**).".

Diwygio rheoliad 3

4. Mae rheoliad 3 (Cofrestru) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(1) Ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) At ddibenion cofrestru unrhyw adar a restrir yn yr Atodlen, caiff y gofrestr y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (1) fod yn unrhyw gofrestr a gedwir gan Weinidogion Cymru sy'n rhestru'r adar y mae tystysgrif berthnasol wedi'i dyroddi ar eu cyfer.

(1B) O ran unrhyw adar sydd wedi'u rhestru neu sydd i'w rhestru mewn unrhyw gofrestr o fath y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1A)—

(a) nid yw paragraffau (2) a (5) yn gymwys; a

(b) nid yw paragraffau (1)(a)(iii), (c) ac (ch) a (2) o reoliad 4 yn gymwys.".

(2) Ar ôl paragraff (6) ychwaneger—

"(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "tystysgrif berthnasol" ("*relevant certificate*") yw tystysgrif a ddyroddir gan Weinidogion Cymru (fel yr awdurdod rheoli perthnasol) ac y cyfeirir ati yn Erthygl 10 o Reoliad y Cyngor.

(8) Yn y rheoliad hwn, ystyr "awdurdod rheoli perthnasol" ("*relevant mana ement authority*") yw'r awdurdod yr hysbyswyd y Llywodraeth Adnau (o fewn ystyr Erthygl XX o CITES) ohono, o dan Erthygl IX(2) o CITES, fel un sydd wedi'i ddynodi'n unol ag Erthygl IX(1) o CITES i gyflawni swyddogaethau awdurdod rheoli at ddibenion rhoi trwyddedau neu dystysgrifau ar ran y Deyrnas Unedig yn unol â CITES.".

Diwygio rheoliad 5

5.—(1) Mae rheoliad 5 (Modrwyo a marcio) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Mae aderyn wedi'i farcio'n unol â'r paragraff hwn os yw wedi'i farcio'n unol â gofynion Erthygl 66 o Reoliad y Comisiwn ynghylch marcio sbesimenau(**5**).".

Yr Atodlen i'r Rheoliadau

6. Mae'r Atodlen ganlynol wedi'i mewnosod—

"YR ATODLEN Rheoliad 3(1A)

Adar y caniateir eu cofrestru'n unol â rheoliad 3(1A)

Enw cyffredin	*Enw wyddonol*
Cudyll bach	Falco columbarius
Hebog tramor	Falco peregrinus".

(**4**) OJ L161, 3.3.1997, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 407/2009 (OJ L123, 19.5.2009, t.3).

(**5**) Mae Erthygl 66 yn rhoi ar waith baragraff 7 o Erthygl VI o'r Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn RhywogaethauFfawna a Fflora Gwyllt mewn Perygl (CITES).